

NODIADAU CWBLHAU'R FFURFLEN GAISS

1. Rhaid anfon papurau'r Alban, Gogledd Iwerddon, Ynysoedd y Sianel, Ynys Manaw neu bapurau tramor i'r awdurdod cyhoeddi priodol (h.y. nid y Bank of England). Os derbynir y papurau hyn gan y Bank of England fe'u dychwelir drwy'r post ar eich risg eich hunan.
2. Dylid trafod papurau a niweidir yn ddifrifol cyn lleied â phosibl. Dylid pacio'r papurau'n ofalus i'w hanfon i'r Bank of England.
3. **Mae hawliadau am £1,000 neu'n fwy** angen dilysiad o ID [Hunaniaeth] yr ymgeisydd a thystiolaeth o gyfeiriad. Gweler isod am fathau derbyniol o ddogfennau i ddilysu ID a chyfeiriad.
4. Bydd taliadau o £1,000 neu'n fwy a wneir i drydydd parti angen tystiolaeth o ID a chyfeiriad deiliad y cyfrif.
5. Gwneir taliad ar gyfer hawliadau llwyddiannus yn uniongyrchol i gyfrif banc. Nodwch fanylion y cyfrif banc yn yr adran briodol drosodd.
6. Mae ceisiadau a wneir ar ran cwmnïau angen i wybodaeth ychwanegol gael ei darparu fel y manylir arno isod;
 - i) Enw a Rhif Gofrestredig y Cwmni
 - ii) Swyddfa Gofrestredig yn y wlad lle cafodd ei gorffori
 - iii) Mae angen llythyr eglurhaol i roi tystiolaeth o'r hyn uchod gan gynrychiolydd y cwmni ar bapur â phennawd .

Mathau Derbyniol o ID - dim ond un sy'n ofynnol (ffotogopi yn unig)

- Pasbort Dilys
- Trwydded Yrru Gerdyn-llun ddilys (llawn neu dros dro)
- Cerdyn Hunaniaeth Cenedlaethol (ar gyfer gwladolion tramor)
- Tystysgrif Arfau Tanio neu Drwydded Gwn Haels

Mathau Derbyniol o Dystiolaeth Cyfeiriad - dim ond un sy'n ofynnol (ffotogopi yn unig)

- Trwydded Yrru Gerdyn-llun ddilys (llawn neu dros dro) os nas defnyddir i ddilysu'r enw
- Y Gofrestr Etholiadol
- Bil Cyfleustod neu Dystysgrif gan Gyflenwr Cyfleustodau*
- Bil Treth Awdurdod Lleol*
- Datganiad/Paslyfr Banc, Cymdeithas Adeiladu neu Undeb Credyd*
- Y Datganiad Morgais Diweddarach
- Cerdyn Rhent neu Gytundeb Tenantiaeth Cyngor Lleol
- Llyfr Budd-daliadau/ Llythyr gan Yr Asiantaeth Budd-daliadau*
- Bil Ffôn (ac eithrio ffonau symudol)*
- Bil cerdyn credyd*
- Hysbysiad treth Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi*
- Llythyr gan Ganolfan Byd Gwaith yn cadarnhau'r Rhif Yswiriant Gwladol*

*Dylai tystiolaeth o gyfeiriad a ddarperir fod yn ddyddiedig o fewn y chwe mis diwethaf.

O dan amgylchiadau eithriadol, gall y Bank of England, yn ôl ei ddisgresiwn, dderbyn mathau eraill o adnabod. Os na allwch ddarparu unrhyw un o'r mathau adnabod neu dystiolaeth o gyfeiriad a restrir, cysylltwch â'r Bank of England cyn cyflwyno'ch hawliad.

Wedi'i chwblhau, dylid anfon y ffurflen gais, gyda'r papurau a niweidiwyd, naill ai drwy Gludydd Diogeledd, neu drwy ei hanfon drwy'r post (â stampiau priodol ac ar risg yr ymgeisydd ei hunan - argymhellir anfon hawliadau gwerth uwch drwy Ddanfoniad Arbennig y Post Brenhinol) i:

Y RHEOLWR, DEPT MN, BANK OF ENGLAND, KING STREET, LEEDS, LS1 1HT.

Gellir lawrlwytho copiâu o'r ffurflen hon oddi ar dudalen Papurau Banc a Niweidiwyd gefan y Bank of England; www.bankofengland.co.uk

Hysbysiad Preifatrwydd: Bydd y Bank of England yn prosesu'ch gwybodaeth yn unol â'r ddeddfwriaeth gyfredol ynghylch Diogelu Data. Gall y Bank of England brosesu'ch gwybodaeth at ddiben busnes a gweithgareddau cysylltiedig y Banc, ac ni fydd yn datgelu'ch gwybodaeth i drydydd parti'n allanol ac eithrio ar gyfer dibenion Gorfodi'r Gyfraith. Ni chaiff eich gwybodaeth ei phrosesu at ddibenion marchnata uniongyrchol. Mae gennych yr hawl i ofyn am gopi o'r wybodaeth a ddelir amdanoch yn ein cofnodion, a gellir codi ffi fach arnoch am hyn, ac am ofyn inni gywiro unrhyw anghywirdebau, trwy ysgrifennu at y Swyddog Diogelu Data, Bank of England,

Threadneedle Street, London, EC2R 8AH.